athro gorffennaf 22.qxp_Layout 1 19/07/2022 6:19 pm Page 1

Rhifyn 2, Gorffennaf 2022

Cylchgrawn Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

# yr Athro

# Cynhadledd Hybrid UCAC - 10 Mehefin 2022




*Heulwen Howells (Is-Lywydd) a Nia Goode (Llywydd)*

Eleni, am y tro cyntaf yn hanes UCAC, cynhaliwyd Cynhadledd hybrid a hynny yng Nghanolfan Medrus, Prifysgol Aberystwyth. Cafodd aelodau UCAC gyfle i ymuno â'r trafodaethau wyneb yn wyneb a hefyd ar-lein a hynny heb yr un glitsh technegol! Diolch i bawb am y cyfraniadau ac am drafodaethau arbennig – ceir rhestr o'r cynigion a'r penderfyniadau ar dudalennau 4 a 5.





*Cynadleddwyr UCAC*

t2-5 Cynhadledd UCAC
t7 Staff Newydd
t8 Hyfforddiant




# Heulwen Howells –

## Llywydd UCAC 2022-2023

Cefais fy magu ar aelwyd barchus a gofalgar ar gyrion pentref gwledig a godidog Pen-y-Bont yng ngogledd Sir Gâr cyn symud i fyw tafliad carreg i ffwrdd wedi i mi briodi Alan Cwm - ar un o ddiwrnodau mwyaf arbennig fy mywyd.

Mae fy nhaith byd addysg yn dechrau yn Ysgol Pen-y-bont, y '*dduwies dysg*' yn ôl y bardd, Jacob Davies, Alaw Cowin. cyn symud ymlaen i Ysgol Hafodwenog. Ar ddechrau'r 80au, mynychais goleg addysg bellach Rhydaman i hyfforddi fel gweinyddes ddosbarth (NNEB)lle dderbyniais brofiadau ymarferol gwerthfawr yn cynnwys cyfnodau mewn ysgolion, cyfnod yn ysbyty Glangwili ar ward y plant a ward y babanod bach..

Wedi cwblhau'r hyfforddiant, braint oedd cael fy nghyflogi am y tro cyntaf fel gweinyddes yn Ysgol Cynwyl Elfed ar gyfnod mamolaeth. Yno, gyda Mrs Ann Evans wrth y llyw daeth cyfleoedd di ben draw i mi ddatblygu sgiliau niferus wrth i mi ymgymryd â'm dyletswyddau dyddiol fel Miss Heulwen.

Gyda thristwch y gadewais yr ysgol honno ond wrth i un drws gau, byddai un arall yn agor - drws Ysgol Llanboidy y tro hwn. Mae gennyf atgofion melys o'r dyddiau da yno gyda Mr Clinton Henry, Mrs Margarette Hughes a Miss Betty Thomas. Wedi cyfnod hapus iawn yno dychwelais i Ysgol Cynwyl Elfed lle bum yn gyflogedig am ddeng mlynedd cyn cael swydd yn Ysgol Hafodwenog.

Roedd ardal Trelech yn agos iawn at fy nghalon, ro'n i wedi cael fy ngeni, magu a byw yn yr ardal erioed a mynychu'r ysgol fel plentyn. Erbyn hyn, roedd traed bach Lowri, - ein merch yn troedio tir Cwm. Dyma swydd a oedd yn cynnig y gorau o ddau fyd –i ymestyn fy mhrofiad, ynghyd â gweld Lowri yn datblygu yn ei blynyddoedd cynnar. Diolchaf am y ddeng mlynedd dedwydd iawn yno ac am y cyfleoedd di-ri i ddatblygu sgiliau pellach o dan arweinyddiaeth Mr Gerwyn Jones, ac athrawon brwdfrydig Dr Carol James a Mrs Elonwy Thomas.

Yno, yn Ysgol Hafodwenog, dan bwysau arolwg ESTYN, y digwyddodd rhywbeth annisgwyl - rhywbeth fyddai'n newid llwybr fy mywyd. Gofynnodd y prif arolygydd ar y pryd i mi ddod i'w weld yn y llyfrgell amser cinio. Cyn pen dim, roedd fy mhen yn llawn o feddyliau negyddol. A oeddwn, o bosib, wedi gwneud rhywbeth o'i le yn ystod un o'r sesiynau yn y dosbarth? Yn bryderus iawn yr agorais ddrws y llyfrgell. Ond cododd fy nghalon a diflannodd yr holl bryderon pan ddechreuodd siarad a holi a oeddwn erioed wedi ystyried mynd i'r brifysgol i hyfforddi fel athrawes ac yntau'n fy annog yn gryf i wneud hynny.

Bu ei eiriau caredig ar fy meddwl yn gyson wedi'r diwrnod hwnnw, ond gwyddwn na fyddai modd i mi wireddu'r freuddwyd. Roeddem fel teulu yn llwyr ddibynnol ar fy nghyflog fel gweinyddes, ers i Alan, fy ngŵr, roi'r gorau i'w


## Bwrdd Golygyddol

**Llywydd Cenedlaethol:** Nia Goode
**Is-Lywydd:** Heulwen Howells
**Ysgrifennydd Cyffredinol:** Dilwyn Ellis Roberts
**Cydlynydd Yr Athro:** Mererid Lewis Davies

**Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidrwydd yn farn swyddogol UCAC.**

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: ucac@ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am *Yr Athro*.

swydd oherwydd y dirywiad yn ei olwg, o ganlyniad i gyflwr *Rhetinitis Pigmentosa*. Ond, ychydig fisoedd yn ddiweddarach, fe laniodd poster ar fwrdd yr ystafell athrawon, un oedd yn hysbysebu gradd Addysg Blynyddoedd Cynnar hyblyg.

Am y tair blynedd nesaf, mynychais gwrs gradd hyblyg gyda'r hwyr ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant tra'n parhau i weithio yn fy rôl fel gweinyddes yn ystod y dydd. Ac yn dilyn hyfforddiant TAR, dechreuais ar fy ngyrfa fel athrawes gyda chyfnodau cyflenwi byr dymor yn ysgolion Llandysul a Chwrtnewydd yng Nheredigion cyn i mi dderbyn swydd barhaol yn Ysgol Cenarth lle rwy'n dal i weithio heddiw.

Fel athrawes feithrin yn yr ysgol honno, caf wylio disgyblion ieuengaf yr ysgol yn blodeuo o ddydd i ddydd, a sicrhau'r gefnogaeth orau ar gyfer y dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol fel Cydlynydd ADY. Caf gyfle i arwain ar fywyd a gwaith yr ysgol yn fy rôl fel Athro â Gofal gan fireinio'r addysgu, hyrwyddo dysgu, dylanwadu ar ddysgwyr, cydweithredu a chydweithio yn gynhyrchiol a hapus gyda chydweithwyr yn yr ysgol, gydag asiantaethau allanol a chymuned ehangach yr ysgol. Rwy'n Gymraes i'r carn ac mae cydlynu maes dysgu a phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig gan gydlynu gwaith y Siarter Iaith yn rhoi gwefr arbennig i mi.

Credaf fod addysg yn rhywbeth gydol oes ac er mwyn gwella fy nealltwriaeth a'm gwybodaeth rwyf wedi parhau gyda datblygiad proffesiynol parhaus drwy wneud hyfforddiant rheolwyr canol, dilyn cwrs MA Addysg Plentyndod Cynnar, a bod yn rhan o rwydweithiau a chymunedau dysgu lu. O fis Medi ymlaen, byddaf yn dilyn llwybr fydd yn cymryd trywydd ychydig yn wahanol, sef llwybr Llywydd Cenedlaethol UCAC.

Credaf â sicrwydd, na fyddem wedi medru teithio ar hyd y llwybr hwn oni bai am gefnogaeth rhai unigolion allweddol. Mawr yw fy niolch i fy nheulu annwyl sef Alan, Lowri, Mam a Dat, a'm chwiorydd Jennifer a Llinos, heb anghofio Steffan (cariad Lowri) am eu cefnogaeth a'r hyd fy mywyd a'm taith. Diolch iddynt am fod wrth fy ymyl yn feunyddiol. - Gwerthfawrogwyd y cyfan.

Mawr yw fy ngwerthfawrogiad i deulu Ysgol Cenarth Diolch i'm pennaeth, Miss Meinir Lewis a phob pennaeth blaenorol sydd wedi fy nhywys ac wedi rhoi bob cyfle i mi ddatblygu'n broffesiynol ynghyd â chydweithrediad a chefnogaeth holl staff yr ysgolion lle'm cyflogwyd. Hoffwn ddiolch i Mrs Julia James am fy nghyflwyno a'm hannog i ymgymryd â gwaith yr undeb a hefyd i swyddogion yr undeb am gael bod yn aelod ohoni ar y Cyngor Cenedlaethol, yr Adran Gydraddoldeb, ac o fis Medi yn Llywydd am flwyddyn.

Edrychaf ymlaen at flwyddyn gynhyrchiol yn cydweithio gyda'r Ymddiriedolwyr, Ysgrifennydd Cyffredinol, gweddill staff yr undeb a'r aelodau gwerthfawr, er mwyn parhau gyda'r gwaith da sydd eisoes wedi ei gyflawni er mwyn sicrhau bod yr undeb yn ffynnu ac yn mynd o nerth i nerth.

Cofier, mai mewn undeb mae nerth!



*Dilwyn Ellis Roberts, Ysgrifennydd Cyffredinol*

# Araith yr Ysgrifennydd Cyffredinol

Mae wedi bod yn braf cael Cynhadledd wyneb yn wyneb yn dilyn cyfnod mor heriol gan ddiolch hefyd i'r rhai ohonoch sydd wedi gallu ymuno gyda ni o bell.

Hwn fydd fy Nghynhadledd olaf fel gwas cyflogedig i'r Undeb, a minnau wedi cael y fraint o weithio ym mhob ardal yn Nghymru fel Swyddog Maes, Is-ysgrifennydd Cyffredinol ac fel Ysgrifennydd Cyffredinol. Yr aelodaeth yw UCAC a byddaf wedi bod yn aelod bellach am bron i bedwardeg mlynedd ac yn gobeithio parhau fel aelod am flynyddoedd i ddod.

Dros gyfnod y pandemig bu i mi gael y cyfle i gadeirio'r deg Undeb sy'n cynrychioli'r holl staff ym myd addysg a hynny'n cynnig her a boddhad i mi. Yn ogystal, bu i mi gadeirio dros ddeg ar hugain cyfarfod o'r bartneriaeth gymdeithasol ysgolion rhwng yr Undebau Llafur, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Roedd y rôl wedi sicrhau lle canolog i lais UCAC ar un o'r adegau mwyaf heriol yn hanes addysg yma yng Nghymru.

Rwy'n mawr hyderu bod y cyfnod hwn wedi dysgu nifer o wersi i ni yma yng Nghymru. Roedd y bartneriaeth gymdeithasol yn sylfaen gadarn i sicrhau *Byd Gwaith Teg* sydd yn amcan gan Lywodraeth Cymru. Dyma fyd gwaith ble mae dyhead i sicrhau: cyflogau uwch; gweithio hyblyg; swyddi diogel ac amodau sy'n gwneud yn siŵr bod pawb yn cael eu trin yn gydradd. Yn anad dim, roedd yn cadarnhau bod ymgyrch diflino UCAC dros ddegawdau tuag at sicrhau Cyfundrefn Addysg Annibynnol i Gymru wedi ei gyfiawnhau.

Ar ddechrau cyfnod y pandemig roedd UCAC yn croesawu'r ymrwymiad i wneud penderfyniadau ar sail egwyddorion oedd yn cynnwys gofalu am les meddyliol, emosiynol a chorfforol myfyrwyr a staff ac i ennill hyder rhieni, staff a myfyrwyr. Gwelsom yn ogystal staff ysgol yn addasu eu dulliau addysgu, yn mynd yr ail filltir yn eu gofal o 'les meddyliol, emosiynol a chorfforol ddisgyblion'.

Mae'n rhaid i ni fod yn gwbl effro nawr i unrhyw awgrym o erydu'r amodau gwaith yr ydym wedi brwydro mor galed i'w cael dros ddegawdau. Roedd cynnig UCAC yng Nghyngres TUC Cymru ar sicrhau bod unrhyw drafodaeth ar newid diwrnod a blwyddyn ysgol yn sicrhau ystyriaeth greiddiol i lais yr arweinydd a'r athro ysgol. Mae hyn, wrth gwrs, yn unol ag amcan yr Undeb i ddiogelu a gwella amodau gwaith ein haelodau ac amddiffyn eich buddiannau.

Wrth ddod at ddiwedd fy ngyrfa gydag UCAC gallaf nawr edrych ymlaen at barhau i fod yn aelod gweithredol o'r Undeb. Mae wedi bod yn fraint dilyn ôl troed rhai o gewri UCAC ac rwy'n dymuno'n dda i'r rhai fydd yn parhau gyda'r gwaith yn ddiflino a gydag arddeliad.

Mewn Undeb Mae Nerth!

athro gorffennaf 22.qxp_Layout 1 19/07/2022 6:20 pm Page 4

# Cynigion Cynhadledd 2022 a Phenderfyniadau

## A. Newidiadau i Gyfansoddiad a/neu Drefniadaeth yr Undeb

**Cynnig 1: Newid enw'r undeb**

Gydag aelodaeth UCAC yn cwmpasu ystod eang o addysgwyr yng Nghymru rydym yn gofyn ar y Gynhadledd hon i ail-ystyried enw'r undeb gan ei henwi yn Undeb Cenedlaethol Addysgwyr Cymru.

**YN UNFRYDOL I'W DROSGLWYDDO I'R CYNGOR CENEDLAETHOL EI YSTYRIED**

**Cynnig 2: Aelodaeth i gymorthyddion**

Gyda gweithlu ein hysgolion bellach yn lwyr ddibynnol ar staff ategol i staffio ein dosbarthiadau gofynnwn fod y Gynhadledd hon yn ystyried ehangu aelodaeth yr undeb i gymorthyddion dosbarth a staff ategol.

**YN UNFRYDOL I'W DROSGLWYDDO I'R CYNGOR CENEDLAETHOL EI YSTYRIED**

## B. Trefniadaeth Addysg a Chynnwys Addysg

**Cynnig 3: Cyllidebau ysgol**

Mae'n Gynhadledd yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn 2019 ar 'Cyllido Ysgolion yng Nghymru' a'r adolygiad dilynol yn 2020 gan yr economegydd Luke Sibieta 'Adolygiad o wariant ysgolion yng Nghymru'. Yn sgil y gwaith pwysig hwn, mae'r Gynhadledd yn pwyso ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i sicrhau newid i'r drefn bresennol ble mae'n rhaid gwario cyllideb gyfan yr ysgol, gan gynnwys symiau sylweddol sy'n cyrraedd yn ddirybudd, yn hwyr iawn, erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Byddai rhoi hyblygrwydd i gario cyllid o un flwyddyn i'r llall, o leiaf tan ddiwedd y flwyddyn ysgol, yn gwneud gwahaniaeth aruthrol i ysgolion.

**YN UNFRYDOL I'W DROSGLWYDDO I'R CYNGOR CENEDLAETHOL EI YSTYRIED**

**Derbyniwyd yn unfrydol yng nghyfarfod y Cyngor Cenedlaethol ar 6-7-22**

**Cynnig 4: Prydau ysgol am ddim a fformiwlâu ariannu**

Yn sgil yr ymrwymiad yn y Cytundeb Cydweithio rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru, mae'r Gynhadledd yn nodi bod prydau ysgol am ddim yn cael eu cyflwyno i bob plentyn 4-11 oed dros y tair blynedd nesaf, ac yn y Cyfnod Sylfaen o fis Medi 2022. Mae'r Gynhadledd yn gofyn am eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y caiff elfennau o ariannu megis y Grant Datblygu Disgyblion, a'r Grant Gwella Addysg sy'n rhannol seiliedig ar niferoedd y plant sy'n hawlio prydau ysgol am ddim, eu cyfrifo o fis Medi ymlaen.

Noda'r Gynhadledd ymhellach bod y dull blaenorol, oedd yn seiliedig ar y niferoedd oedd yn hawlio, yn hytrach na'r niferoedd oedd yn gymwys, yn ddull camarweiniol ac annheg. Galwn am fformwla sy'n seiliedig ar anghenion gwirioneddol teuluoedd, ac sy'n seiliedig ar wybodaeth gyfredol.

**YN UNFRYDOL I'W DROSGLWYDDO I'R CYNGOR CENEDLAETHOL EI YSTYRIED**

**Derbyniwyd yn unfrydol yng nghyfarfod y Cyngor Cenedlaethol ar 6-7-22**




*Cynhadleddwyr yn ymuno o bell*

**Cynnig 5: Cynllunio'r gweithlu addysg Gymraeg yn strategol**

Mae'r Gynhadledd yn ymwybodol o'r gwaith pwysig sy'n digwydd ar hyn o bryd i lunio Cynllun Deng Mlynedd ar gyfer y gweithlu addysg Gymraeg. Galwn ar Lywodraeth Cymru i sicrhau fod y Cynllun yn un gwirioneddol strategol, ar gyfer cyfnod sy'n hirach na deng mlynedd yn unig, i gyfateb â thargedau Cymraeg 2050, ac sy'n cwmpasu pob rhan o'r gweithlu addysg. Pwysleisiwn yr angen am lwybrau mynediad amrywiol i'r proffesiwn, gan gynnwys digon o gyfleoedd i hyfforddi yn y gweithle ar gyfer pob sector a phob pwnc.

**EI DDERBYN YN UNFRYDOL**

**Cynnig 6: Dysgu proffesiynol**

Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau fod amser cyson yn cael ei neilltuo ar gyfer dysgu proffesiynol i bob athro. Mae dysgu proffesiynol cyson, rhyngweithiol yn hanfodol ar gyfer datblygu a rhannu arferion effeithiol. Ymhellach, pwysleisiwn y cysylltiad cryf rhwng amser i gamu nôl a myfyrio ar arferion proffesiynol, a lles y gweithlu. Rhaid sicrhau bod yr un cyfleoedd ar gael i'r gweithlu cyfrwng Cymraeg, ar draws Cymru.

**EI DDERBYN YN UNFRYDOL**

**Cynnig 7: Asesu o fewn y cwricwlwm newydd**

Wrth agosáu at gyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn swyddogol ym mis Medi 2022, galwa'r Gynhadledd am eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch sawl elfen o'r trefniadau asesu. Tra'n croesawu'r hyblygrwydd newydd a ddaw yn sgil y cwricwlwm o ran cynnwys a dulliau, pryderwn ynghylch diffyg cysondeb o ran trefniadau asesu rhwng ysgolion. Gwerthfawrogwn y pwyslais ar asesu ar gyfer dysgu, ac ar adroddiadau naratif, fodd bynnag galwn am sicrwydd ynghylch gofynion gosod gwaelodlin ar gyfer dysgwyr newydd, a gwybodaeth gryno fydd yn galluogi tracio, yn enwedig yng nghyd-destun pontio rhwng un ysgol a'r llall.

**GYDA MWYAFRIF I'W DROSGLWYDDO I'R CYNGOR CENEDLAETHOL EI YSTYRIED**

**Derbyniwyd gyda mwyafrif yng nghyfarfod y Cyngor Cenedlaethol ar 6-7-22**

athro gorffennaf 22.qxp_Layout 1 19/07/2022 6:20 pm Page 5




*Nia Goode yn annerch y Gynhadledd*

**Cynnig 8: Terminoleg yn sgil y cwricwlwm newydd**

Wrth agosáu at gyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn swyddogol ym mis Medi 2022, galwa'r Gynhadledd am eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch terminoleg i'w ddefnyddio yn lle'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol. Rydym o'r farn y byddai sicrhau rhywfaint o gysondeb yn hyn o beth yn fanteisiol. Nid ydym o'r farn bod defnyddio'r Camau Cynnydd yn briodol gan mai pwyslais y cwricwlwm newydd yw bod disgyblion yn cyrraedd y Camau pan fyddant yn barod yn ddatblygiadol yn hytrach nag ar oedran penodol.

**GYDA MWYAFRIF I'W DROSGLWYDDO I'R CYNGOR CENEDLAETHOL EI YSTYRIED**

**Gwrthodwyd gyda mwyafrif yng nghyfarfod y Cyngor Cenedlaethol ar 6-7-22**

**Cynnig 9: Diwygio'r flwyddyn ysgol**

Mae'r Gynhadledd yn nodi gyda phryder bod Llywodraeth Cymru wedi cychwyn ystyried newid calendr y flwyddyn ysgol heb ymgynghori'n ddigonol gyda'r gweithlu. Galwn ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw gynigion wedi'u seilio ar ymchwil a rennir yn gyhoeddus, a bod ymgynghoriad trwyadl a chynnar gyda'r proffesiwn ar unrhyw gynigion.

**EI DDERBYN YN UNFRYDOL**

## C. Amodau Gwaith

**Cynnig 10: Argyfwng costau byw**

Mae argyfwng costau byw sylweddol yn ein hwynebu ac mae perygl gwirioneddol y bydd cyflog real athrawon yn syrthio unwaith eto eleni. Mae'r Gynhadledd yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pob athro'n derbyn codiad cyflog sylweddol uwch na'r gyfradd chwyddiant i wneud yn iawn am sawl blwyddyn o godiadau cyflog is na chwyddiant.

**EI DDERBYN YN UNFRYDOL**

**Cynnig 11: Ariannu codiadau cyflog**

Mae'r Gynhadledd yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau bod unrhyw godiad cyflog a ddyfernir i athrawon yn cael ei gyllido'n llawn, er mwyn osgoi lleihad yng nghyllidebau ysgolion.

**EI DDERBYN YN UNFRYDOL**

**Cynnig 12: Athrawon cyflenwi**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae sefyllfa darpariaeth athrawon cyflenwi yng Nghymru wedi gwaethygu, ac hynny wedi ei amlygu hyd yn oed fwy yn ystod cyfnod Covid-19. Rydym yn gofyn ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r diffyg difrifol o athrawon cyflenwi yng Nghymru gan sicrhau cyflog ac amodau gwaith teg.

**GYDA MWYAFRIF I'W DROSGLWYDDO I'R CYNGOR CENEDLAETHOL EI YSTYRIED**

**Derbyniwyd yn unfrydol yng nghyfarfod y Cyngor Cenedlaethol ar 6-7-22**



athro gorffennaf 22.qxp_Layout 1 19/07/2022 6:20 pm Page 6




# Cyngres TUC Cymru 24 - 26 Mai 2022

Mynychodd Nia Goode (Llywydd Cenedlaethol); Dilwyn Ellis Roberts (Ysgrifennydd Cyffredinol) ac Ioan Rhys Jones (Darpar Ysgrifennydd Cyffredinol) Gyngres TUC Cymru yn Llandudno ym mis Mai.

Wales TUC Cymru

Ymysg y materion a gafodd ystyriaeth oedd cynnig gan UCAC yn ymwneud â ***Diwygio'r diwrnod a'r flwyddyn ysgol.*** Dyma'r cynnig yn ei grynswth:

*Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymchwilio i ddiwygio'r diwrnod a'r flwyddyn ysgol. Rydym yn derbyn gwerth gwneud hynny, o safbwynt y gweithlu addysg, dysgwyr a'u teuluoedd.*

*Mae'r Cyngor Cyffredinol yn ymrwymo i ddefnyddio'r sianeli priodol i bwyso ar Lywodraeth Cymru i sicrhau:*

- *bod y rhesymeg sy'n gyrru unrhyw newidiadau yn glir ar bob cam o'r drafodaeth*
- *bod llesiant y gweithlu a'r disgyblion yn gwbl ganolog i'r drafodaeth ar bob cam*
- *mai llais y gweithlu addysg, trwy gyfrwng yr undebau sy'n eu cynrychioli, yn ogystal â dysgwyr a'u teuluoedd sydd flaenaf yn y drafodaeth, fel y rhanddeiliaid yr effeithir arnynt yn fwyaf uniongyrchol*
- *nad oes unrhyw waethygiad i delerau gwaith y gweithlu addysg yn sgil unrhyw newidiadau*
- *bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddefnyddio unrhyw ddiwygiadau i sicrhau amodau gwaith mwy hyblyg i aelodau o'r gweithlu sy'n dymuno hynny, mewn proffesiwn sydd wedi'i nodweddu gan anhyblygrwydd*
- *bod tryloywder ynghylch y dystiolaeth a ddefnyddir fel sail ar gyfer unrhyw gynigion neu gynlluniau*

Cafodd y cynnig ei eilio gan yr NEU oedd wedi galw ar Gyngres y TUC i sicrhau bod ymgynghoriad yn digwydd o fewn y proffesiwn i fater oedd yn rhan o faniffesto'r Blaid Lafur ac yn un o'r materion dan ystyriaeth y bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru.

Bydd UCAC yn gweithio gyda TUC Cymru a'r undebau eraill i sicrhau nad oes unrhyw newid i amodau gwaith sydd yn tanseilio'r hyn yr ydym wedi ei gyflawni dros flynyddoedd o sefyll yn gadarn ar ran y proffesiwn.




# Yn Cyflwyno...

## Geraint Phillips
## Is-Lywydd UCAC 2022-2023

Mae Geraint yn hanu o bentref Rhosllannerchrugog, ger Wrecsam, lle mae'n byw gyda'i wraig a'i ddau fab. Dilynodd ei dad i mewn i'r proffesiwn addysgu, ond yn hytrach na'i ddilyn i addysgu cynradd, aeth Geraint i'r sector uwchradd. Wedi tymor o waith cyflenwol yn ardal Caerdydd a chyfnod byr o ddau dymor yn Ysgol Gyfun Cas-gwent yn 2004, aeth Geraint yn ôl i'w hen ysgol uwchradd – sef Ysgol Morgan Llwyd yn Wrecsam – lle mae'n parhau i weithio 18 mlynedd yn ddiweddarach.

Tu hwnt i furiau'r ysgol, mae Geraint yn canu gyda, ac yn Ysgrifennydd i, Gôr Meibion Rhosllannerchrugog, gan deithio hyd a lled y wlad a thramor yn ystod ei gyfnod gyda nhw.

Mae Geraint yn hynod o falch o'r cyfle i gael ymgymryd â'r rôl bwysig o fod yn Is-lywydd UCAC er mwyn gallu cefnogi Mrs Heulwen Howells fel Llywydd. Mae'n gyfle hefyd i ddysgu ymhellach am y rôl bwysig mae UCAC yn ei chwarae ym myd addysg yng Nghymru ac ym mywydau gwaith ei haelodau er mwyn gweld sut y gall gyfrannu at y gwaith pwysig hwn.

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

athro gorffennaf 22.qxp_Layout 1 19/07/2022 6:20 pm Page 7

# Staff newydd

Braf fydd croesawu dau aelod o staff newydd i UCAC yn nhymor yr Hydref. Y ddau fydd Roger Vaughan fel Swyddog Maes y Gogledd a Iona Davies Swyddog Polisi.


*Roger Vaughan*


*Iona Davies*

**Roger Vaughan**

Yn wreiddiol o'r Bermo, fe raddiodd Roger mewn Peirianneg ym Mhrifysgol Morgannwg cyn mynd i Brifysgol Bangor i wneud cwrs TAR Dylunio a Thechnoleg. Cychwynnodd ei yrfa yn Ysgol Uwchradd Tywyn Sir Feirionnydd, ac ers 22 o flynyddoedd mae o wedi bod yn athro yn Ysgol Eifionydd Porthmadog yn dysgu Dylunio a Thechnoleg, Cydlynydd y Fagloriaeth ac yn ddiweddar yn gyfrifol am y Maes Dysgu a phrofiad Iechyd a Lles.

Mae Roger wedi bod yn gynrychiolydd ysgol ar ran aelodau UCAC ers dros 18 mlynedd ac yn y cyfnod yma wedi bod yn gadeirydd pwyllgor gwaith Gwynedd, yn aelod o'r Cyngor Cenedlaethol ac yn 2017 roedd yn Llywydd Cenedlaethol UCAC.

**Iona Davies**

Daw Iona yn wreiddiol o Gapel Bangor, ger Aberystwyth. Derbyniodd ei haddysg yn Ysgol Gynradd Penllwyn, Capel Bangor ac Ysgol Gyfun Penweddig, cyn mynd i Brifysgol Gogledd Cymru, Bangor a graddio yn y Gymraeg a'r Ffrangeg. Yna dilynodd gwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ar ôl cyfnod yn addysgu Ffrangeg yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ac Ysgol Gyfun Glantaf, dychwelodd i Geredigion a threulio dros bum mlynedd ar hugain yn Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi, Llandysul. Yn ystod y cyfnod hwnnw, bu yn cyflawni nifer o swyddi gwahanol, gan gynnwys Pennaeth yr Adran Ieithoedd Modern, Pennaeth y Chweched, Pennaeth Cynorthwyol a Dirprwy Bennaeth. Ym mis Medi 2015, gadawodd Geredigion am fwynder Maldwyn a bu yn Bennaeth Ysgol Uwchradd Caereinion rhwng Medi 2015 a mis Rhagfyr 2018. Yna, penderfynodd newid gyrfa a dychwelyd i'w sir genedigol. Ers mis Ionawr 2019, mae'n gyfieithydd i Gyngor Sir Ceredigion. Ymhlith ei diddordebau, mae darllen, gwrando ar gerddoriaeth, gwaith llaw, ymchwilio i hanes y teulu a cherdded. Dywed Iona ei bod yn edrych ymlaen at ddechrau ar ei swydd newydd gydag UCAC ym mis Hydref.

## Tâl Aelodaeth 2022-23

Dyma fydd tâl aelodaeth UCAC o fis Medi 2022.
**Sylwer nad yw'r tâl yn codi o gwbl eleni eto.**

| Categori aelodaeth | Tâl blynyddol | Tâl misol |
|---|---|---|
| Llawn amser | £204.00 | £17.00 |
| Rhan amser 0.7-0.9 | £171.00 | £14.25 |
| Rhan amser 0.4-0.6 | £138.00 | £11.50 |
| Rhan amser 0.3 neu lai | £114.00 | £9.50 |
| Blwyddyn galendr gyntaf o addysgu | | **AM DDIM** |
| Ail flwyddyn galendr o addysgu | | **HANNER PRIS** |



EISTEDDFOD Ceredigion
30 Gorffennaf – 6 Awst 2022

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Bydd UCAC yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron eleni.

**Stondin 530**

**Cofiwch alw heibio am baned a sgwrs.**

**CYSTADLEUAETH HAMPER**

Hefyd bydd cyfle i aelodau ennill hamper o fwydydd Cymreig
Edrychwn ymlaen i'ch gweld!

# Cynllun Cyfforus Newydd Llythrennedd Iechyd Meddwl *Y Canllaw* ar gyfer athrawon

## (Hyfforddiant datblygiad proffesiynol am ddim)

Ydych wedi clywed am gynllun newydd **Y Canllaw**? Cynllun ei hariennir gan Lywodraeth Cymru er mwyn galluogi addysgwyr i ddarparu llythrennedd iechyd meddwl i ddisgyblion yw hwn. Mae'n cael ei weithredu gan y mudiadau *Gweithredu Dros Blant* a *Mental Health Literacy*.

Mae'r cynllun yn cynnig adnoddau llythrennedd iechyd meddwl Y Canllaw i ysgolion uwchradd. Mae cynllun gwaith Y Canllaw, ar gyfer disgyblion blwyddyn 9 a hŷn, yn cyd-weu â Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles ac yn ategu Fframwaith Llywodraeth Cymru wrth ymgorffori ymagwedd ysgol gyfan tuag at les emosiynol a meddyliol. Mae hefyd yn rhoi Cwricwlwm Iechyd a Lles effeithiol ac atyniadol yn **nwylo athrawon**.

Mae iddo chwe modiwl seiliedig ar dystiolaeth ac mae'r rhain yn ceisio bod o fudd i ddysgwyr blwyddyn 9 a hŷn i helpu i wella eu dealltwriaeth o'r meysydd canlynol: ymwybyddiaeth o les meddyliol cadarnhaol, deall stigma a'i ganlyniadau, gwybodaeth am broblemau ac anhwylderau iechyd meddwl cyffredin, gwybodaeth am sut i geisio cymorth pan fo angen.

Mae'n addas i'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru ac yn gymesur â 5-10 awr o ddysgu proffesiynol parhaus. Mae iddo ddwy elfen: DYSGU a DATBLYGU.

Mae DYSGU ar ffurf cwrs hyfforddiant unigol neu'n rhan o'r hyfforddiant llawn dros bedair sesiwn. Mae dwy sesiwn (2.5 awr yr un) sy'n helpu staff i wella eu dealltwriaeth o:

- Termau iechyd meddwl, ystyr, ac iaith • Stigma iechyd meddwl • Straen a'r ymateb straen
- Ymateb i COVID ac adferiad ar ei ôl

Mae DATBLYGU yn dilyn DYSGU, felly mae angen cwblhau DYSGU cyn cychwyn hyfforddiant DATBLYGU. Mae DATBLYGU yn ddwy sesiwn ychwanegol (2.5 awr yr un) ac yn hanfodol ar gyfer staff fydd yn cyflwyno cynllun gwaith Y Canllaw i ddisgyblion. Bydd DATBLYGU o ddefnydd hefyd i'r sawl sydd am wella eu gwybodaeth yn y maes hwn. Mae DATBLYGU yn cynnig gwybodaeth fwy manwl am:

- Anhwylderau meddwl cyffredin • Sut mae adnabod anhwylderau meddwl • Beth i'w wneud
- Pa driniaethau sydd ar gael.

Mae'r dyddiadau ar gyfer yr hyfforddiant yn ystod Tymor yr Hydref fel a ganlyn:

Lefel 1 DYSGU:

Grŵp 1
Sesiwn 1: Dydd Mawrth 20 Medi 12.30pm-3pm
Sesiwn 2: Dydd Mawrth 27 Medi 12.30pm-3pm
https://www.eventbrite.co.uk/e/the-guide-learn-schools-group-1-tickets-352706252897

Grŵp 2
Sesiwn 1: Dydd Mawrth 18 Hydref 3.30pm – 6pm
Sesiwn 2: Dydd Mawrth 25 Hydref 3.30pm – 6pm
https://www.eventbrite.co.uk/e/the-guide-learn-schools-group-2-tickets-382841779067

Grŵp 3
Sesiwn 1: Dydd Mawrth 22 Tachwedd 10am – 12.30pm
Sesiwn 2: Dydd Mawrth 29 Tachwedd 10am – 12.30pm
https://www.eventbrite.co.uk/e/the-guide-learn-schools-group-3-tickets-383325606207

Cysylltwch ag
elizabeth.lawrence@actionforchildren.org.uk
os am wybodaeth bellach.

**Hefyd i ddod cyn hir:** Cynllun gwaith llythrennedd iechyd meddwl ar **gyfer ysgolion cynradd**

Ar hyn y bryd, mae *Gweithredu Dros Blant* hefyd yn chwilio am ysgolion peilot i gyflwyno'r

adnoddau cyffrous newydd am y cynllun uchod ac i roi adborth amdanynt. Cysylltwch ag elizabeth.lawrence@actionforchildren.org.uk os bydd y cyfle hwn o ddiddordeb i chi.

O NERTH I NERTH:
Arian parod am gyflwyno aelodau newydd

CYFLE I ENNILL £25!

www.ucac.cymru

UCAC
Ffordd Penglais
Aberystwyth 01970 639950
Ceredigion ucac@ucac.cymru
SY23 2EU @AthrawonCymru

Ydych chi eisiau cyfle i ennill £25?

Am bob darpar aelod y llwyddwch chi i'w recriwtio i fod yn aelodau o UCAC, byddwch chi a'r aelod newydd yn derbyn £25 yr un!

Sut?

1. Cyfeirio'r unigolyn i ymaelodi ar wefan UCAC: www.ucac.cymru/ymaelodi

2. Sicrhau bod yr aelod(au) yn nodi eich enw chi fel aelod sy'n argymell ar y ffurflen ymaelodi

3. Sicrhau bod yr aelod(au) newydd yn cwblhau'r ffurflen ymaelodi

*Bydd y taliadau o £25 yn cael eu talu i'r cyfrifon banc yn syth ar ôl i daliad Debyd Uniongyrchol cyntaf yr aelod newydd gael ei brosesu. Ni ellir manteisio ar y cynnig hwn ar y cyd ag unrhyw gynnig ymaelodi arall.